# Adroddiad crynodeb i rieni a gofalwyr ar Ysgol Bro Pedr

Dyddiad yr arolygiad: Mai 2025

Mae'r adroddiad hwn hefyd ar gael yn Saesneg

# Crynodeb

Mae Ysgol Bro Pedr yn gymuned gynhwysol a chroesawgar lle mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion yn ymddwyn yn barchus ac yn dangos agwedd gadarnhaol tuag at ddysgu. Mae staff yn meithrin perthnasoedd cadarn â disgyblion, gan greu amgylchedd lle mae llawer o ddisgyblion yn canolbwyntio'n dda ac yn gwneud cynnydd addas, gyda lleiafrif yn gwneud cynnydd cryf.

Rhoddir pwyslais cryf iawn ar lais y disgybl ac, o ganlyniad, mae llawer o ddisgyblion yn datblygu medrau personol a chymdeithasol gwerthfawr. Mae dylanwad y senedd a'r fforymau trafod ar fywyd a gwaith yr ysgol yn sylweddol.

Mae'r rhan fwyaf o athrawon yn meddu ar wybodaeth bynciol dda, yn defnyddio ystod o strategaethau effeithiol ac yn cyflwyno gwersi ysgogol. Mae disgyblion yn cael cyfleoedd buddiol i ddatblygu eu medrau darllen a rhifedd ar draws y cwricwlwm, ac mae hyn yn cael effaith gadarnhaol ar eu datblygiad. Fodd bynnag, nid yw'r adborth ysgrifenedig gan athrawon bob amser yn ddigon manwl i helpu disgyblion i wella ansawdd eu gwaith.

Mae disgyblion yn datblygu ystod eang o fedrau mewn amrywiol gyd-destunau. Mae llawer yn ysgrifennu'n glir mewn amrywiaeth o ffurfiau, megis adroddiadau newyddion ac areithiau. O'r Cyfnod Sylfaen ymlaen, mae disgyblion yn defnyddio eu medrau digidol yn hyderus, gan greu animeiddiadau o ansawdd da a defnyddio meddalwedd arbenigol i gyflwyno eu gwaith. Mae disgyblion hefyd yn elwa o raglen gyfoethog o weithgareddau allgyrsiol, gan gynnwys teithiau addysgol, clybiau a phrofiadau sy'n ehangu eu gorwelion.

Mae Canolfan y Bont yn darparu amgylchedd dysgu eithriadol o gynhwysol ac ymatebol i ddisgyblion 11–19 oed ag anghenion dwys a chymhleth. Mae'r addysgu wedi'i seilio ar egwyddorion personol a holistig, gan ystyried anghenion corfforol, gwybyddol ac emosiynol pob unigolyn. Yn sgil hyn, mae bron pob disgybl yn gwneud cynnydd da o'u mannau cychwyn.

Mae llawer o ddisgyblion yn defnyddio'r Gymraeg yn hyderus mewn sesiynau cyfrwng Cymraeg. Mewn sesiynau cyfrwng Saesneg, nid yw'r athrawon yn annog disgyblion ddigon i ddefnyddio Cymraeg yn achlysurol ac mae llawer yn troi'n rhy gyflym at y Saesneg mewn sefyllfaoedd anffurfiol.

Mae arweinyddiaeth y pennaeth a'r tîm arwain yn gryf ac yn bwrpasol, gan sicrhau bod pawb yn cael cyfle i ddysgu a llwyddo mewn amgylchedd cynhwysol ac uchelgeisiol. Mae arweinwyr yn ymateb yn brydlon i ganfyddiadau hunanwerthuso ac yn gwneud addasiadau penodol sy'n arwain at gynnydd pendant. Er bod presenoldeb disgyblion yn cymharu'n weddol gyda lefelau'n genedlaethol, maent yn parhau i fod yn rhy isel.

# Argymhellion a beth sy'n digwydd nesaf

**Rydym wedi gwneud tri argymhelliad i helpu'r ysgol i barhau i wella:**

A1 Sicrhau cysondeb yn ansawdd adborth ar waith a'r lefel her i gael effaith gadarnhaol ar safon gwaith disgyblion

A2 Cynyddu'r defnydd o Gymraeg achlysurol yn y gwersi cyfrwng Saesneg er mwyn annog disgyblion i ddefnyddio'r Gymraeg yn fwy hyderus

A3 Gwella presenoldeb

Bydd yr ysgol yn llunio cynllun gweithredu i fynd i'r afael â'r argymhellion o'r arolygiad.

## Adroddiad llawn

Os hoffech ddarllen mwy am werthusiad Estyn o'r ysgol, dilynwch y ddolen hon i'r adroddiad llawn.

© Hawlfraint y Goron 2025: Gellir ailddefnyddio'r adroddiad hwn yn ddi-dâl mewn unrhyw fformat neu gyfrwng ar yr amod y caiff ei ailddefnyddio'n gywir ac na chaiff ei ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol. Rhaid cydnabod y deunydd fel hawlfraint y Goron a rhaid nodi teitl yr adroddiad penodol.

Dyddiad cyhoeddi: 16/07/2025